Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001



# Cwestiynau'r Cyfrifiad

## Golwg ar y cwestiynau a ofynnir yng Nghymru a Lloegr a pham rydym yn eu gofyn

Mae ffurflen Cyfrifiad 2001 yn cynnwys cyfanswm o 41 o gwestiynau yn Lloegr a 42 yng Nghymru (lle y caiff cwestiwn ar yr iaith Gymraeg ei gynnwys), a dim ond atebion ☑ sydd eu hangen ar y rhan fwyaf ohonynt. Dim ond saith o'r cwestiynau na chawsant eu gofyn yng Nghyfrifiad 1991. Nod y cwestiynau yw cyflwyno darlun mor fanwl â phosibl o bobl, cartrefi a thai, yng Nghymru a Lloegr. Dewiswyd pob cwestiwn yn dilyn ymgynghoriad â llywodraeth ganolog a lleol, academia, awdurdodau iechyd, y gymuned fusnes, grwpiau sy'n cynrychioli lleiafrifoedd ethnig ac eraill â diddordebau neu bryderon arbennig. Er mwyn eu cynnwys, mae'n rhaid i'r cwestiynau gwrdd ag anghenion nifer sylweddol o ddefnyddwyr, fod yn dderbyniol i'r cyhoedd a rhoi data o ansawdd da.

Y topigau cyffredinol a gwmpesir gan y cwestiynau yw:

- Y cartref
- Nodweddion demograffig (e.e. rhyw, oed, statws priodasol)
- Iechyd/salwch tymor hir/darparu gofal
- Cymwysterau
- Perthynas o fewn y cartref
- Nodweddion diwylliannol (e.e. grŵp ethnig)
- Mudo
- Cyflogaeth
- Lleoliad y gwaith a'r daith i'r gwaith

Noder: Ar dudalen gyntaf ffurflen y cyfrifiad bydd y Cyfrifydd (sy'n cynnal y Cyfrifiad) yn ysgrifennu cyfeiriad llawn y cartref ac enw'r person sy'n gyfrifol am gwblhau'r ffurflen. Cwblheir pob adran arall o'r ffurflen gan aelodau o'r cartref.
*Mae'r cyfeiriad a'r cod post yn helpu i sicrhau bod y staff maes yn ymdrin â'r ffurflenni'n gywir ac yn galluogi Swyddfa'r Cyfrifiad i sicrhau y derbyniwyd y ffurflenni a ddychwelwyd drwy'r post. Defnyddir y wybodaeth ar y cyfeiriad hefyd i gaffael ystadegau ar deithio i'r gwaith a'r rhai hynny sy'n symud tŷ yn ystod y flwyddyn cyn y Cyfrifiad.*

### Strwythur y ffurflen

Mae ffurflen y Cyfrifiad yn cynnwys pum rhan:

**Adran 1** **Tabl 1:**
Rhestr o enwau'r holl bobl sydd fel arfer yn byw yn y cyfeiriad.

**Adran 2** **Tabl 2:**
Enwau a chyfeiriadau arferol unrhyw ymwelwyr ar Noson y Cyfrifiad.

YSTADEGAU GWLADOL

**Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol**
**Tel: 01329 813800**
**e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk**
**gwefan: www.statistics.gov.uk**

**Adran 3** **Y cartref:**
Mae naw cwestiwn i'r rhan hon sy'n gofyn am y math o lety sydd yn y cartref.

**Adran 4** **Aelodau'r cartref a'u perthnasau â'i gilydd:**
Gofynnir i bob person nodi ei berthynas ef neu ei pherthynas hi ag aelodau eraill o'r cartref.

**Adran 5** **Cwestiynau unigol:**
Bydd angen i bob person yn y cartref sy'n 16 oed neu'n hŷn ateb uchafswm o 32 o gwestiynau unigol. Dylai oedolyn ateb cwestiynau ar ran plant o dan 16 oed. Gofynnir llai o gwestiynau i'r rhai hynny o dan 16 neu dros 75 oed, ac i'r rhai hynny nad ydynt yn gweithio. Mae gan ffurflen y Cyfrifiad le i bump o bobl gofnodi eu hatebion. Dosberthir ffurflenni ychwanegol, os oes angen, i gartrefi mwy.

Rhoddir manylion pob cwestiwn a gaiff ei gynnwys yn y Cyfrifiad isod, ynghyd â'r rhesymau dros eu gofyn.

## Adran 1

### Tabl 1

Gofynnir i'r person sy'n gyfrifol am gwblhau pob ffurflen Cyfrifiad nodi **enw** pob person sydd fel arfer yn byw yn y cyfeiriad.
*Bydd hyn yn helpu'r person sy'n llenwi'r ffurflen i gwblhau'r wybodaeth ar gyfer pob aelod o'r cartref yn yr un drefn drwy'r ffurflen.*

## Adran 2

### Tabl 2

**Enw** a **chyfeiriad** pob ymwelydd sy'n aros yn y cartref ar Noson y Cyfrifiad.
*Mae hwn yn gweithredu fel ail wiriad ar gyfer y person sy'n llenwi'r ffurflen bod pawb sy'n aros yn y cyfeiriad ar Noson y Cyfririfad wedi ei gyfrif – naill ai fel aelod o'r cartref neu fel ymwelydd.*

## Adran 3

### Y cartref

*Y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth y gellir ei chymharu'n genedlaethol ar dai ar lefel leol. Bydd ei ganlyniadau yn nodi newidiadau yng nghyflwr stoc y tai, yn darparu sail gadarn ar gyfer asesu'r galw cyfredol a'r galw yn y dyfodol, ac yn cyfrannu at ddyrannu grantiau gwella.*

**Math o lety a geir yn y cartref**
Bydd y cwestiwn hwn yn darparu gwybodaeth am y math o lety e.e. tŷ teras, fflat a adeiladwyd yn bwrpasol, carafán.

**A yw'r llety yn hunan-gynhwysol?**
Mae'r cwestiwn hwn yn nodi a yw'r cartref ar wahân i'r llety a ddefnyddir gan aelodau cartrefi eraill yn yr un adeilad, h.y. mae ei ystafelloedd y tu ôl i ddrws sydd ond yn cael ei ddefnyddio gan aelodau'r cartref hwnnw.

**Nifer yr ystafelloedd i'w defnyddio gan y cartref yn unig**
(heb gynnwys ystafelloedd ymolchi, toiledau, landins ac ystafelloedd storio)
*Wedi'i gyfuno â data ar nifer a nodweddion y bobl ym mhob cartref, bydd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn helpu i ddangos y graddau y gall llety yn yr ardal fod yn orlawn.*

**Defnydd neilltuedig o'r baddon/cawod a'r toiled**
Gofynnir i'r cartrefi p'un a oes ganddynt ddefnydd neilltuedig o naill ai faddon neu gawod a thoiled.
*Mae defnydd wedi'i rannu neu ddefnydd neilltuedig o adnoddau sylfaenol yn dal yn ddangosydd sylfaenol o gyflwr y stoc tai, ac mae'n offeryn pwysig wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer datblygu ac adnewyddu tai.*

### Lefel llety llawr isaf

*Bydd y cwestiwn hwn yn darparu mesur o gartrefi a phobl sy'n byw mewn llety a all fod yn anaddas, er enghraifft, plant ifanc, preswylwyr hŷn, neu bobl ag anabledd sy'n byw mewn tŵr fflatiau.*

### Gwres canolog

Gofynnir cwestiwn ar argaeledd **gwres canolog.**
*Mae hyn yn cyfrannu tuag at wybodaeth ddefnyddiol am safonau tai.*

### Perchen car/fan

Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn faint o **geir neu faniau** y mae'r cartref **yn berchen arnynt neu sydd ar gael ar gyfer eu defnyddio**.
*Defnyddir y wybodaeth i ragamcanu lefelau o berchenogaeth ceir yn y dyfodol, ar gyfer astudio'r defnydd o ffyrdd ac asesu'r angen i fuddsoddi yn y dyfodol mewn trafnidiaeth gyhoeddus.*

### Perchen ar lety a'r math o landlord

Bydd y cwestiynau hyn yn dangos faint o'r stoc tai ym mhob ardal:
sy'n eiddo i'r perchennog; sy'n eiddo i awdurdodau lleol neu sefydliadau eraill megis cymdeithasau tai neu dai a gaiff eu rhentu gan landlord preifat, cyflogwr, perthynas, ac ati.

## Adran 4 Aelodau'r cartref a'u perthynas â'i gilydd

Bydd y Cyfrifiad yn cynnwys cwestiwn ar y berthynas rhwng aelodau o'r cartref (e.e. gŵr, ŵyr/wyres).
*Bydd y wybodaeth hon yn darparu data am gyfansoddiad teulu/cartref a strwythur cymdeithas. Fe'i defnyddir gan ystod o sefydliadau sy'n gyfrifol am gwrdd ag anghenion gwahanol fathau o deulu. Caiff ei defnyddio ar gyfer cynllunio llety a gwasanaethau ar gyfer rhieni unigol a'r henoed, yn ogystal ag asesu'r galw posibl am dai gan deuluoedd ifanc.*

## Adran 5 Cwestiynau unigol

Bydd angen i bawb ateb tua hanner o'r 30 o gwestiynau fwy neu lai sy'n weddill ar ffurflen y Cyfrifiad ar dopigau megis oed, rhyw, grŵp ethnig ac iechyd. Bydd angen i'r rhai hynny sy'n 16 i 74 oed ateb cwestiynau pellach ar gymwysterau, gweithgaredd economaidd, galwedigaeth a diwydiant y cyflogwr.

### Nodweddion sylfaenol y boblogaeth

*Un o dasgau pwysicaf y Cyfrifiad yw rhoi ffigur cywir am* **nifer y bobl** *yn y wlad a lle maent yn byw. Mae hyn yn darparu'r sail allweddol ar gyfer cynllunio gwasanaethau cyhoeddus a dyrannu adnoddau.*

### Rhyw, dyddiad geni a statws priodasol

*Bydd nifer y bobl a ddosberthir yn ôl eu rhyw, oed a statws priodasol yn hwyluso dadansoddiad o wahanol fathau o gartrefi, megis y rhai hynny â phensiynwyr, plant neu bobl sengl.*

*Mae'r data yn darparu sail ar gyfer mesur newidiadau demograffig a chyfrifo cyfraddau morbidrwydd, marwolaeth, ffrwythlondeb, priodas ac ysgariad. Hefyd cânt eu defnyddio, gyda gweddill data'r Cyfrifiad, i amcangyfrif maint ac oedran y gweithlu a'r nifer a gyflogir mewn galwedigaethau neu ddiwydiannau penodol.*

**Mudo – cyfeiriad flwyddyn yn ôl**
Bydd y cwestiwn yn gofyn beth oedd cyfeiriad arferol bob person flwyddyn yn ôl. Os yw hyn yn wahanol i'r cyfeiriad presennol, cynhyrchir ystadegau yn nodi nifer a nodweddion pobl a chartrefi sydd wedi symud o un ardal i un arall. Bydd y ffigurau yn dangos cyraeddiadau o'r tu allan i'r DG (ond nid y rhai a adawodd) yn y flwyddyn cyn y Cyfrifiad.
*Mae mudo yn elfen fawr o newid yn y boblogaeth mewn ardaloedd lleol yn y cyfnod rhwng y cyfrifiadau. Bydd y wybodaeth a gesglir yn galluogi i gasgliadau gael eu gwneud am lefel a phatrwm mudo mewn blynyddoedd eraill, a darparu manylion ar nodweddion y mudwyr.*

**Gwlad enedigol**
Bydd y cwestiwn hwn yn darparu gwybodaeth ar p'un a anwyd y rhai hynny sy'n byw yng Nghymru a Lloegr yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon neu rywle arall (gan gynnwys manylion y wlad berthnasol).
*Mae'r wybodaeth yn darparu sail ar gyfer amcangyfrif nifer a sefyllfaoedd cymunedau wedi mudo sydd weithiau'n fach ac a allai fod ag anghenion penodol neu sydd angen gwasanaethau arbennig.*

## Nodweddion diwylliannol

**Grŵp ethnig**
Bydd Cyfrifiad 2001 yn cynnwys cwestiwn ar grŵp ethnig, yn dilyn cyflwyno'r topig yn llwyddiannus yng Nghyfrifiad 1991.
*Bydd y wybodaeth a geir o'r cwestiwn grŵp ethnig yn galluogi i lywodraeth genedlaethol a lleol ac awdurdodau iechyd ystyried anghenion arbennig grwpiau lleiafrifoedd ethnig wrth ddyrannu adnoddau a chynllunio rhaglenni. Mae'r ymatebion i'r cwestiwn yn darparu ffigurau gwaelodlin y gall y Llywodraeth fonitro anfantais hiliol bosibl yn eu herbyn a mesur newidiadau dros amser.*

**Crefydd**
Yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Senedd, bwriedir gofyn cwestiwn unigol ar grefydd am y tro cyntaf mewn Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.
*Bydd y wybodaeth a geir o'r cwestiwn yn ategu'r data a geir o'r cwestiynau ar grŵp ethnig a gwlad enedigol. Bydd y data hwn yn cefnogi dyraniad adnoddau a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer grwpiau crefyddol a lleiafrifoedd ethnig gan awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd.*

**Yr iaith Gymraeg**
Dim ond ar ffurflen y Cyfrifiad yng Nghymru y bydd y cwestiwn hwn yn ymddangos, a bydd yn gofyn a yw pob person yn deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg.
*Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a chaiff ei ddefnyddio i fesur newidiadau yn y defnydd o'r iaith, i gynllunio darpariaeth addysg ddwyieithog, ac i fonitro effaith y gefnogaeth i'r iaith a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

## Iechyd

**Salwch tymor hir sy'n cyfyngu**
Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn p'un a oes gan y person unrhyw salwch, problem iechyd neu anabledd tymor hir sy'n cyfyngu ar ei weithgareddau/gweithgareddau bob dydd neu'r gwaith y gall ei wneud ai peidio. Wedi'i gyfuno â data o gwestiynau eraill, bydd yn darparu gwybodaeth ar yr amgylchiadau y mae'r rhai sydd â salwch tymor hir yn byw ynddynt, yn ogystal â manylion oed, cenedl ac amgylchiadau economaidd.
*Defnyddir y wybodaeth gan y sectorau cyhoeddus a phreifat i fesur yr angen am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer y rhai sydd â salwch tymor hir ar lefelau cenedlaethol a lleol.*

**Iechyd cyffredinol**
Bydd y cwestiwn newydd hwn yn gofyn i'r ymatebwyr asesu eu hiechyd eu hunain dros y 12 mis blaenorol a nodi p'un a oedd 'yn dda', 'yn weddol dda', neu 'ddim yn dda'.
*Dangoswyd bod y wybodaeth hon yn rhagfynegydd da o'r gofynion am wasanaeth iechyd.*

**Darparu gofal**
Bydd y cwestiwn newydd hwn yn gofyn p'un a yw'r person yn gofalu am, neu'n rhoi unrhyw help neu gymorth i deuluoedd, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, anabledd neu broblemau tymor hir sy'n gysylltiedig â henaint ai peidio.
*Mae'r Llywodraeth yn cydnabod maint cynyddol yr help personol di-dâl a roddir i eraill gan ofalwyr. Bydd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn darparu gwybodaeth fanwl am y gofalwyr hyn a maint y gofal a roddir, i lywio ymgyrchoedd polisi a dyrannu adnoddau gan wasanaethau iechyd a gwasnaethau cymdeithasol.*

## Cwestiynau i'w hateb gan rai rhwng 16-74 oed yn unig

### Cymwysterau

**Cymwysterau academaidd a galwedigaethol**
Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn am lefel y cymwysterau academaidd a galwedigaethol a gyflawnwyd, megis arholiadau TGAU, Safon Uwch neu raddau cyntaf.
*Defnyddir y wybodaeth o'r cwestiwn i fesur lefelau o gyrhaeddiad addysgol, cynnydd tuag at y Targedau Dysgu Cenedlaethol, diffygion mewn darpariaeth addysg a hyfforddiant, ac wrth fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar fentrau hyfforddiant ac addysg y llywodraeth. Bydd hefyd yn helpu wrth asesu'r gronfa o bobl â sgiliau a chymwysterau sydd wrth gefn.*

**Cymwysterau proffesiynol**
Bydd cwestiwn atodol yn gofyn p'un a oes gan y person gymwysterau addysgu, meddygol, nyrsio a/neu ddeintyddol.
*Bydd y wybodaeth a geir o'r cwestiwn hwn a gweddill cwestiynau'r Cyfrifiad yn dangos galwedigaeth bresennol y rhai hynny sydd â'r cymwysterau hynny. Bydd hyn yn helpu wrth recriwtio, cadw a hyfforddi'r bobl broffesiynol hyn.*

### Cyflogaeth

*Y Cyfrifiad yw ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr ar wybodaeth y farchnad lafur ar y lefel leol. Mae'n darparu data ar oedran a galwedigaethau gweithwyr mewn gwahanol ddiwydiannau, wedi'u cyflwyno gan yr ardal breswyl a'r gweithle. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad hefyd yn cwmpasu grwpiau eraill yn cynnwys y di-waith, myfyrwyr, pobl sy'n gofalu am y cartref a'r teulu, y rhai sydd wedi ymddeol, a'r rhai hynny â salwch neu anabledd parhaol.*

*Mae'r Cyfrifiad hefyd yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am is-grwpiau o'r boblogaeth (e.e. y rhai dros 50 oed, lleiafrifoedd ethnig) y mae meintiau samplau eraill mewn arolygu yn aml yn rhy fach i ddarparu amcangyfrifon dibynadwy ar lefel leol.*

*Swyddogaeth arall y Cyfrifiad yw darparu ystadegau ar y gronfa lafur a'r gronfa lafur wrth gefn bosibl ym mhob ardal. Defnyddir y rhain gan awdurdodau lleol wrth lunio cynlluniau strwythur a chan gwmnïau sy'n gwneud penderfyniadau buddsoddi.*

*Mae mwyafrif y cwestiynau yn cyfeirio at brif swydd person yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad, neu (ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gyflogedig ar hyn o bryd) at eu swydd fwyaf diweddar.*

## Gweithgaredd economaidd yn yr wythnos/wythnosau cyn y Cyfrifiad

Gofynnir nifer o gwestiynau i bennu p'un a oedd y person, yn yr wythnos/wythnosau cyn Diwrnod y Cyfrifiad: mewn gwaith cyflogedig; yn chwilio am waith; ar gael i weithio; yn aros i gychwyn swydd; wedi ymddeol; yn fyfyriwr; yn gofalu am y teulu neu'r cartref; neu ddim yn gallu gweithio oherwydd salwch neu anabledd parhaol.
*Bydd y wybodaeth hon yn galluogi i ddadansoddiadau marchnad lafur sylfaenol gael eu gwneud yn ôl diffiniadau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol.*

**Amser ers y swydd ddiwethaf**
Gofynnir cwestiwn newydd i'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn gweithio yn ystod yr wythnos cyn y Cyfrifiad i nodi'r flwyddyn (os o gwbl) pan oeddent yn gweithio ddiwethaf. Os nad yw'r person wedi gweithio erioed, ni ofynnir unrhyw gwestiynau pellach.
*Bydd hyn yn helpu i bennu gwahaniaethau lleol o ran cyfnod diweithdra. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth ar nodweddion y rhai di-waith tymor hir.*

## Cwestiynau ar gyfer pobl 16-74 sydd wedi gweithio ar unrhyw adeg

## Gwybodaeth alwedigaethol

Mae'r adran hon yn gofyn chwe chwestiwn ar wahân sy'n darparu ystod o wybodaeth ar alwedigaeth a diwydiant.

**Statws cyflogaeth**
Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r person yn cael ei gyflogi neu'n hunan-gyflogedig.

**Maint y gweithlu yn y gweithle**
Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn faint o bobl a gyflogir yng ngweithle'r person (yn yr ystod 1 i 500 neu fwy).

**Teitl y swydd a'r gwaith a wneir yn y brif swydd (neu'r brif swydd ddiwethaf)**
Bydd y ddau gwestiwn hwn yn gofyn i bobl am eu teitl swydd llawn ac am ddisgrifiad o'r prif bethau a gyflawnir yn eu swydd. Bydd yr atebion a roddir yn darparu gwybodaeth ar strwythur galwedigaethol y DG.

**Statws goruchwyliol**
Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn a oes/oedd gan y person unrhyw gyfrifoldebau goruchwyliol yn ei swydd.

*Defnyddir yr ystadegau a gesglir o'r cwestiynau i asesu newidiadau yn strwythur y gweithlu a bydd yn cyfrannu at astudiaethau o 'farwolaethau galwedigaethol'.*

**Busnes cyflogwr**
Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r person am natur y busnes a weithredir gan eu cyflogwr.
*Defnyddir y wybodaeth, er enghraifft, wrth gynhyrchu cyfrifon rhanbarthol y Llywodraeth a dangosyddion economaidd eraill ac i fonitro newidiadau yn strwythur diwydiant megis y newid o weithgynhyrchu i ddiwydiannau gwasanaeth.*

**Enw'r cyflogwr**
Bydd enw'r sefydliad (a hefyd y cyfeiriad – gweler isod) ble mae'r person yn gweithio yn cynorthwyo'r broses o godio'r diwydiant yn gywir. Ni ddefnyddir yr ymatebion i'r cwestiynau hyn i gynhyrchu gwybodaeth ar gyflogwyr a enwir.

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

Cwestiynau ar gyfer y rhai hynny sy'n 16-74 oed sy'n gweithio ar hyn o bryd

## Gweithle a theithio i'r gwaith

Mae'r adran hon yn cynnwys tri chwestiwn ar gyfeiriad y gweithle, dull teithio i'r gwaith a'r oriau a gaiff eu gweithio yn y brif swydd.

**Cyfeiriad y gweithle**
Bydd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn darparu'r sail ar gyfer mesur patrymau cymudo ac ar gyfer asesu'r cydbwysedd rhwng tai a swyddi.
*Defnyddir ystadegau'r Cyfrifiad ar ble mae pobl gyflogedig yn byw ac yn gweithio gan adrannau'r llywodraeth wrth ddiffinio ardaloedd teithio i'r gwaith lleol a marchnadoedd llafur.*

**Teithio i'r gwaith**
Bydd y cwestiwn hwn yn gofyn sut mae pobl yn teithio i'r gwaith, i'w ddefnyddio wrth gynllunio ffyrdd a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

**Oriau a gaiff eu gweithio fel arfer yn wythnosol yn y brif swydd**
*Bydd y wybodaeth hon yn helpu i roi dealltwriaeth o newidiadau mewn patrymau gweithio ar gyfer galwedigaethau a diwydiannau gwahanol. Caiff ei defnyddio wrth fonitro anfantais, polisi gwledig ac adnewyddu, a chynllunio trafnidiaeth.*


**Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:**

**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

## Taflenni ffeithiau eraill:

1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd

# Rhestr lawn o gwestiynau – rhestr wirio

Mae'r rhestr lawn o gwestiynau i'w gofyn ar y ffurflen fel a ganlyn:

**Adran 1** **Rhestr o'r holl breswylwyr arferol yn y cyfeiriad hwn**

**Adran 2** **Rhestr o ymwelwyr a'u cyfeiriadau**

**Adran 3** **Llety'r cartref**

Math o lety
P'un a yw'r llety'n hunan-gynhwysol
Nifer o ystafelloedd
Argaeledd baddon, cawod a thoiled
Lefel llety llawr isaf*
Argaeledd gwres canolog
Nifer y ceir a'r faniau sy'n eiddo neu sydd ar gael i'w defnyddio
Perchenogaeth y llety
Math o landlord (ar gyfer cartrefi mewn llety ar rent)

**Adran 4** **Aelodau'r cartref a'u perthynas â'i gilydd**

**Adran 5** **Cwestiynau unigol**

Enw
Rhyw
Dyddiad geni
Statws priodasol
P'un a yw'n blentyn ysgol neu'n fyfyriwr
Cyfeiriad yn ystod y tymor ar gyfer plant ysgol/myfyrwyr
Gwlad enedigol
Grŵp ethnig
Gwybodaeth o'r Gymraeg (yng Nghymru yn unig)
Crefydd* (yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Senedd)
Iechyd cyffredinol*
Darparu gofal personol di-dâl*
Salwch, problem iechyd neu anabledd tymor hir
Cyfeiriad arferol flwyddyn yn ôl
Cymwysterau academaidd a galwedigaethol
Cymwysterau proffesiynol
P'un a yw'n gweithio ai peidio (gweithgaredd economaidd yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad)
P'un a yw'n chwilio am waith ai peidio
P'un a yw ar gael i weithio ai peidio
P'un a yw'n aros i ddechrau swydd ai peidio
P'un a yw wedi ymddeol, yn fyfyriwr, yn gofalu am y teulu neu'r cartref, yn sâl yn barhaol neu ag anabledd
Amser ers y swydd ddiwethaf (os yw'n berthnasol)*
P'un a yw'n gyflogai neu'n hunan-gyflogedig
Maint gweithlu'r sefydliad sy'n cyflogi*
Teitl y swydd
Disgrifiad o'r swydd
Statws goruchwylio*
Busnes y cyflogwr yn y gweithle
Enw'r cyflogwr
Cyfeiriad y gweithle
Ffordd o deithio i'r gwaith
Oriau gwaith arferol

Ni chafodd y topigau a farciwyd â * eu cynnwys yng Nghyfrifiad 1991.